



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt Cymru CYNLLUN DATBLYGU'R GYMRAEG

Wedi ei baratoi gyda chymorth  
Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg  
Derbyniwyd gydnabyddiaeth y Comisiynydd ar 02 Mai 2023



## Ein sefydliad

Mae GWCT Cymru, a gafodd ei sefydlu yn 2017, yn rhan o Elusen Ymchwil Cadwraethol the Game and Wildlife Conservation Trust sy'n datblygu'r ymchwil i mewn i brosesau ar lawr gwlad er mwyn gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth ar draws Cymru, gan weithio â ffermwyr ac eraill sydd ynghlwm â rheoli tir o ddydd i ddydd.

Ar sail ein harbenigedd gwyddonol a chredadwyaeth, rydyn ni fel rhan o'r fudiad yn ehangach yn darparu cyngor rheolaidd i gyrff statudol fel Defra, Nature Scot, Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England. Rydyn ni hefyd yn darparu cyngor ymarferol i ffermwyr, rheolwyr tir a sefydliadau cadwraethol eraill ynglŷn â sut i reoli eu tir er budd bioamrywiaeth. Mae ein tîm ymgynghorol wedi, ers nifer o flynyddoedd, cynnal cyrsiau hyfforddiant yn ymwneud ag arferion gorau rheoli ysglyfaeth. Mae'r cyrsiau hyn yn seiliedig ar brofiad ymarferol a gaiff ei gefnogi gan wyddoniaeth GWCT.

Yn GWCT Cymru mae 6 aelod o staff yn gweithio ar lawr gwlad yng Nghymru, ac wedi eu lleoli ar draws y wlad.

Mae'r tîm yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Cymru
- Pennaeth Prosiectau
- Swyddog Prosiect
- Pennaeth Addysg
- Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae ein gwaith yn dilyn ein [Hamcanion Elusenol](#)

## Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a'n cwsmeriaid

Mae GWCT Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ai heffaith ar ein haelodau, ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'r gymdeithas yn ehangach. Rydym yn awyddus i annog y rhai sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg i ddefnyddio'r iaith pan yn cysylltu â ni neu wrth fynychu ein digwyddiadau.

Pwrpas y Cynllun hwn yw i nodi ein sefyllfa bresennol o ran y ffordd yr ydym yn gweithredu a defnyddio'r Gymraeg ac sut y gallwn adeiladu ar hyn i'w gynnal neu ei wella. Bydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd wrth i ni wneud unrhyw welliannau.

## Ein Cynnig Cymraeg

- Mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn Gymraeg neu'r Saesneg, dros y ffôn neu yn ysgrifenedig, rhoddir yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith
- Mae ein staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn laith Gwaith er mwyn i chi eu hadnabod yn hwylus yn ein digwyddiadau
- Mae ein gwefan Cymuned Ffermio GWCT Cymru yn ddwyieithog
- Mae croeso i chi gyfrannu i'n digwyddiadau yn y Gymraeg
- Rydym yn defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol bob tro

## Y swyddog cydlynu

Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Alaw Ceris [aceris@gwct.org.uk](mailto:aceris@gwct.org.uk)

## Cyfnod adolygu

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn ar sail blynyddol, gan ail-wneud yr holiadur a ddarperir gan Comisiynydd y Gymraeg




Dyddiad Adolygiad nesaf: Mawrth 2024

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<b>Delio â phobl</b>				
<b>Wyneb i wyneb</b> Mae aelod(au) o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfarch cwsmeriaid yn y Gymraeg pob amser	③	<b>Parhau i:</b> Mae eisoes 4 aelod o staff (o'r 6) yn rhugl yn y Gymraeg ac felly yn gallu cyfarch cwsmeriaid yn y Gymraeg. <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn ystod digwyddiadau byddwn yn gwisgo bathodyn yn nodi'r staff hyn fel siaradwyr Cymraeg, ac yn cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg wrth gyfarch cwsmeriaid newydd.</li> </ul>	Pawb yn GWCT Cymru	Sioe Frenhinol Gorffennaf 2023
<b>Dros y ffôn</b> Mae pob swyddog yn cynnig cyfarchiad dwyieithog. Os nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg byddant yn cynnig trosglwyddo galwadau at swyddog sy'n gallu siarad Cymraeg	②	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ateb y ffôn a chyfarch ddwyieithog yn ôl y gofyn e.g. 'Bore da/Good Morning Alaw yn siarad'</li> <li>Sicrhau fod gennym gyfarchiad ddwyieithog ar gyfer ein negeseuon ffôn</li> <li>Sicrhau bod system yn ei le os nad yw'r aelod o staff yn siarad Cymraeg bod aelod arall ar gael i'w drosglwyddo</li> </ul>	Pawb yn GWCT Cymru	Mai 2023
<b>Ymateb i lythyrau ac e-byst</b> Rydym yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth rydym yn ei dderbyn yn Gymraeg	③	<b>Parhau i:</b> Ateb ebyst yn Gymraeg os yn eu derbyn yn y Gymraeg <b>Gwella Drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod system yn ei le os nad yw'r aelod o staff yn siarad Cymraeg bod aelod arall yn parhau/help â'r ymateb (ble yn bosib)</li> </ul>	Pawb yn GWCT Cymru	Mai 2023

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<b>Danfon llythyrau ac e-byst</b> Rydym yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar gyfer prosiectau penodol ond weithiau mae rhai'n Saesneg.	②	<b>Parhau i:</b> Anfon ebyst ynglŷn â digwyddiadau ar gyfer sydd ar y gweill mewn ffurf dwyieithog <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pawb yn y tîm yn hapus i wneud (neu ofyn am help cyfieithu os ddim)</li> <li>Ystyried cyfieithu Cylchlythyr Cymru yn y dyfodol – mae'n dod o'r swyddfa ganolog yn uniaith Saesneg. Edrych ar opsiynau.</li> <li>Greu rhestr o gyfathrebiadau sy'n mynd allan.</li> </ul>	Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Mai 2024
<b>Gwasanaethau Cymraeg eraill</b>				
<b>Ydych chi'n cadw cofnod o ddewis iaith eich cwsmeriaid neu ddefnyddwyr? E.e. ar excel neu CRM</b> Mae ganddo ni fasdata, ond does dim cofnod o ddewis iaith cwsmer	①	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnwys gwybodaeth am ddewis iaith wrth gofrestru ayyb?</li> <li>CRM newydd yn cael ei greu – lle i nodi dewis iaith y cwsmer. Holi'r cwestiwn wrth ddatblygu'r system newydd.</li> </ul>	Cyfarwyddwr Cymru	Mai 2024
<b>Iaith Gwaith</b> Mae gan ein swyddogion sy'n siarad Cymraeg droed nodyn e-bost sy'n nodi eu bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg	③	<b>Parhau i:</b> Mae gan bawb sy'n siarad Cymraeg eisoes nodyn ar waelod eu ebyst, sicrhau cysondeb o ran y nodyn hwn <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gynnwys y logo swigen oren i waelod droed nodyn e-bost yr aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg</li> </ul>	Pawb	Mai 2024
<b>Delwedd</b>				

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<b>Enw eich cwmni neu sefydliad</b> Mae ein henw yn uniaith Saesneg ond rydym yn defnyddio slogan dwyieithog er mwyn cyfleu dwyieithrwydd y sefydliad	②	<b>Parhau i:</b> Game and Wildlife Conservation Trust yw enw llawn y mudiad ond yma yng Nghymru GWCT Cymru sydd ar wahan i'r mudiad Brydeinig yn ei chyfanrwydd. <b>Trafod:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneud defnydd o'r cyfieithiad llawn 'Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gêm a Bywyd Gwyllt'</li> <li>Cynyddu pa mor weledol yw'r ddelwedd ddwyieithog.</li> </ul>	Cyfarwyddwr i arwain pawb i roi mewnbwn i'r trafodaeth	Mai 2024
<b>Nodwch os yw'r pethau isod ar gael yn:</b>				
<b>Cardiau busnes</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Cynhyrchu Cardiau Busnes Dwyieithog ar gyfer staf GWCT Cymru	Pawb	Mai 2024
<b>Papur pennawd</b> Saesneg yn unig	①	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Addasu fersiynau Saesneg o'r Papurau Pennawd i fod yn ddwyieithog</li> </ul>	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2023
<b>Adnoddau marchnata- ee Pop-ups / Baneri / Posteri (digidol a statig)</b> Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	②	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Creu rhestr o'r adnoddau – adnabod pa rhai sydd angen eu cyfieithu</li> <li>Os yn creu rhai newydd creu fersiynau dwyieithog neu dwy fersiwn (Cymraeg a Saesneg)</li> </ul>	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Awst 2023 (Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd)

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<b>Llofnod e-bost</b> Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	③	<b>Parhau i:</b> Sicrhau fod gan pawb lofnod ddwyieithog	Pawb	Mai 2023
<b>Gwisgoedd staff</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Logo eisoes yn ddwyieithog Sicrhau bod unrhyw wisgoedd a gaiff eu prynu yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg ble mae'n berthnasol	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2023
<b>Cyhoeddiadau e.e. taflenni gwybodaeth</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Sicrhau bod cyhoeddiadau a gynhyrchi'r yng Nghymru yn ddwyieithog	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2023
<b>Digidol</b>				
<b>Gwefan GWCT Cymru</b> Ar hyn o bryd mae'r wefan yma yn rhan o brif wefan GWCT ac felly yn bennaf yn Saesneg.	①	<a href="#">GWCT Cymru - Game &amp; Wildlife Conservation Trust in Wales - Game and Wildlife Conservation Trust</a> <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gydweithio ag adran TG GWCT i sicrhau bod darpariaeth yn yr iaith Gymraeg ar wefan GWCT Cymru.</li> </ul>	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024
<b>Gwefan Cymuned Ffermio GWCT Cymru</b> Mae ein gwefan yn ddwyieithog gyda'r tudalennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu diweddarau'n gyson. Mae modd newid o'r	③	<a href="#">GWCT Wales Farming Community – Working Conservationists pioneering wildlife-friendly farming</a> <b>Parhau i:</b> Cynnal y ddwy ochr i'r wefan (Cymraeg a Saesneg) Sicrhau bod diweddariada yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
Gymraeg i'r Saesneg wrth ddefnyddio'r botwm dewis iaith				
<b>Cyfryngau Cymdeithasol</b> Mae pob neges yn cael ei roi'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig		<b>Parhau i:</b> Wneud defnydd o'r ddogfen- <a href="#">Defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol</a> <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cynllun cyfryngau cymdeithasol gan ystyried y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr</li> </ul> <b>Nodyn</b> <a href="#">Welcome to Helo Blod   Helo Blod (gov.wales)</a> – cyfieithu am ddim. Hyd at 500 o eiriau y mis	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2023
<b>Digwyddiadau</b> Wrth drefnu digwyddiad ydych chi'n gofyn i'r mynychwyr beth yw eu dewis iaith cyn y digwyddiad, neu wrth iddynt gofrestru?				
<b>Dewis iaith mynychwyr</b> Nid ydym yn gofyn beth yw dewis iaith mynychwyr		<b>Gwella drwy:</b> Cynnwys nodyn wrth archebu lle i fynychu digwyddiad yn gofyn dewis iaith ar gyfer sesiynau cyflwyno prosiectau lleol ayyb.	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2023
<b>Cyflwyniadau</b>		<b>Parhau i:</b> Gynnal cyflwyniadau a chyfarch yn ddwyieithog <b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bo'r cyflwyniad cyffredinol yn ddwyieithog.</li> </ul>	Pawb	Mai 2023



Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi ar ddechrau cyflwyniad (ble yn bosib) ein bod yn hapus i dderbyn cwestiynau/trafodaethau yn Gymraeg</li> </ul>		
<b>Gwahoddiadau</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Greu ac hyrwyddo digwyddiadau a gwahoddiadau drwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal. Anelu i greu gwahoddiad ddwyieithog ble yn bosib. (yn hytrach na fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahan)	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024
<b>Ffurflenni</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Greu ffurflenni drwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal. Anelu i greu gwahoddiadau dwyieithog ble yn bosib (yn hytrach na fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahan)	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024
<b>Cyhoeddiadau ee rhaglen, pecyn mynychwyr</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Greu cyhoeddiadau drwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal. Anelu i greu gwahoddiadau dwyieithog ble yn bosib (yn hytrach na fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahan)	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024
<b>Siaradwyr / Cyhoeddiadau sain</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Ble yn bosib sicrhau bod siaradwyr a chyhoeddwr yn defnyddio'r ddwy iaith i gyfarch. Efallai na fydd yn bosib i'r drafodaeth llawn fod yn Gymraeg a Saesneg yn ddibynnol ar y siaradwyr.	Pawb	Mai 2023
<b>Arwyddion</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Greu ddefnyddio a chreu arwyddion dwyieithog ar gyfer digwyddiadau ble yn bosib (yn hytrach na fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahan)	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<b>Baneri / Pop-ups / Arddangosfeydd</b> Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	②	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Creu rhestr o'r adnoddau – adnabod pa rhai sydd angen eu cyfieithu</li> <li>Os yn creu rhai newydd creu fersiynau dwyieithog neu dwy fersiwn (Cymraeg a Saesneg)</li> </ul>	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Gorffennaf 2023 (Y Sioe Frenhinol)
<b>Staff neu wirfoddolwyr i gyfarch ymwelwyr / cystadleuwyr</b> Cymraeg a Saesneg yn gyfartal	③	<b>Parhau i:</b> Ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg	Pawb	Mai 2023
<b>Tocynnau (system gofrestru ee tocyn.cymru / eventbrite?)</b> Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg	②	<b>Parhau i:</b> Defnyddir gwefan GWCT er mwyn archebu tocynnau i ddigwyddiadau ar hyn o bryd. Gwefan Saesneg ydyw ond mae'r wybodaeth am y digwyddiad yn ddwyieithog <b>Gwella:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried defnyddio system gofrestru e.e. Tocyn.cymru neu eventbrite</li> <li>Thrafod â thîm digwyddiadau GWCT Llundain os yw system digwyddiadau 'EMMA' yn gallu bod yn ddwyieithog</li> </ul>	Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu	Mai 2024
<b>Hyfforddiant</b> Mae rhai cyrsiau ar gael yn Gymraeg ond yn bennaf byddant yn Saesneg. Byddwn yn marchnata cyrsiau yn ddwyieithog gan ddynodi'r cyrsiau Cymraeg yn glir.	②	<b>Parhau i:</b> Hyrwyddo hyfforddiant gan ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg yn gyfartal <b>Gwella:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal cyrsiau adnabod adar yn yr iaith Gymraeg mewn paratoad ar Gyfrif Mawr Adar Ffermdir (Chwefror 2024) yn y Gymraeg</li> </ul>		Mai 2024

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		a'r Saesneg. Trefnu'r cyrsiau mewn partneriaeth â FUW.		
<b>Datblygu Gweithlu</b>				
<b>Recriwtio staff a gwirfoddolwyr</b> Rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer ein holl swyddi newydd	③	<b>Ystyried:</b> <a href="#">Recriwtio: ystyried y Gymraeg</a> Ymrwymiad bod swyddi gyda siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd yn parhau i fod yn Gymraeg yn hanfodol.	Cyfarwyddwr Cymru	Mai 2023
<b>Hysbysebu swyddi gwag</b> Rydym yn paratoi hysbysebion yn ddwyieithog os yw'r Gymraeg yn sgil dymunol neu hanfodol	②	<b>Gwella drwy:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd swyddi newydd yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog gan wneud defnydd o wefannau dwyieithog (a restir isod) dros y flwyddyn nesaf.</li> <li>• Dyma rai gwefannau sy'n hysbysebu swyddi Cymraeg: <a href="#">Golwg360</a>, <a href="#">Safle Swyddi, Lleol, Swyddle</a></li> <li>• <a href="#">Trafod os oes dylai'r Gymraeg fod yn 'hanfodol' ar gyfer y swyddi hynny</a></li> </ul>	Cyfarwyddwr Cymru	Mai 2023
<b>Cofnodi sgiliau Cymraeg eich gweithlu</b> Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n swyddogion yn gallu siarad Cymraeg	①	Tîm bach o 6 o staff a 4 yn siarad Cymraeg yn rhugl. Wrth benodi rhagor o staff, ystyried creu cofnod o sgiliau Cymraeg y gweithlu	Cyfarwyddwr Cymru	Mai 2023

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
<p><b>Rhoi gwybod i'ch gweithlu am eich gwasanaethau Cymraeg</b> Nid oes unrhyw beth mewn lle</p>	<p>①</p>	<p>Tîm bach o 6 GWCT Cymru yn ymwybodol o'r angen i gynnig ein gwasanaeth yn y ddwy iaith <b>Gwella drwy:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Godi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad (DU) o'r ymrwymiad i'r Gymraeg, er mwyn sicrhau cefnogaeth gan y brif swyddfa.</li> <li>• GWCT fel mudiad yn ehangach i fabwysiadu Cynllun Datblygu.</li> </ul>	<p>Cyfarwyddwr a Phawb</p>	<p>Mai 2023</p>
<p><b>Dylanwadu ar bartneriaid ac aelodau i gynnig gwasanaethau Cymraeg</b> Nid ydym yn ystyried y Gymraeg wrth weithio gyda phartneriaid ac aelodau.</p>	<p>①</p>	<p><b>Gwella:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafod y Gymraeg gyda'n partneriaid e.e. NFU / FUW</li> </ul>	<p>Pawb</p>	<p>Mai 2024</p>
<p><b>Dysgu a defnyddio'r Gymraeg</b> Mae gyda ni feddalwedd i gefnogi swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig yn y gwaith e.e Cysill</p>	<p>①</p>	<p><b>Gwella:</b> Sicrhau bod gan pob aelod o staff sy'n defnyddio'r Gymraeg y feddalwedd a dolenni ar y we i gefnogi eu gwaith ysgrifenedig: <b>LAWRLWYTHO</b> <a href="#">Cysgliad</a> – meddalwedd am ddim gyda geiriadur a gwirio ysgrifen <a href="#">Tô Bach</a> – meddalwedd am ddim sy'n gwneud y gwaith o osod acenion a nodau <b>AR-LEIN</b> <a href="#">Term Cymru</a> – geiriadur termau Llywodraeth Cymru <a href="#">Geiriadur yr Academi</a> - geiriadur <a href="#">Cysill ar-lein</a> – gwirio ysgrifen</p>	<p>Pawb</p>	<p>Mai 2023</p>

Eich darpariaeth ar hyn o bryd	Lefel	Beth ydym am wneud nesaf. Sut ydym am gynnal, neu gynyddu'r lefel yma o ddarpariaeth? Oes dangosyddion perfformiad?	Cyfrifoldeb pwy?	Erbyn pryd?
		<p><b>HYFFORDDIANT</b>  <u>Cymraeg Gwaith</u> -Cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle  <u>SaySomethingIn...Welsh</u> – Cyrisiau Cymraeg am ddim ar y we</p>		Mai 2024